Cronfeydd Strwythurol a Buddosoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds

# Llywodraeth Cymru – Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop 2014-2020

# Mesur I.22 Erthygl 42: Gwerth ychwanegol, Ansawdd Cynnyrch a defnyddio dalfeydd diangen

## Cynllun Costau Safonol

## Defnyddio RPW Ar-lein i Wneud Cais

© Hawlfraint y Goron
ISBN digidol 978-1-80535-655-4

# Cynnwys


Cynnwys ..... 2
Gwybodaeth ..... 3
Cofrestru ..... 3
RPW Ar-lein: Mewngofnodi ..... 4
RPW Ar-lein: Hafan ..... 6
Tudalen Ffurflenni ..... 6
Cais i’r SCS: Dechrau Cais ..... 7
Cyflwyniad ..... 10
Hysbysiad Preifatrwydd ..... 12
Cwestiynau am Gymhwysedd ..... 13
Manylion Cwch neu Long ..... 14
Cymhwysedd: Wedi'i gwblhau ..... 14
Dewis Eitemau ..... 16
Eitemau a Ddewiswyd ..... 17
Tudalen Gyflwyno: Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb ..... 22
Cyflwyno: Datganiadau ac Ymrwymiadau ..... 23
Tudalen Gyflwyno: Cyflwyno ..... 23
Cyflwyno’r Dogfennau ..... 24
Cyflwyno Dogfennau: Negeseuon ..... 24
Ar ôl cyflwyno cais yn llwyddiannus ..... 27

## Gwybodaeth

Bydd y cyfarwyddiadau hyn yn rhoi canllawiau cam wrth gam i chi ar sut i gwblhau eich Cais Cynllun Costau Safonol (SCS).

Mae Llywodraeth Cymru yn llunio'r canllawiau yma yn Gymraeg ac yn Saesneg fel sy'n ofynnol o dan Gynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.

Os ydych yn dod ar draws problemau neu'n methu â gweld ein gwefan, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.


## Cofrestru

Er mwyn gwneud cais i Gynllun Costau Safonol EMFF, rhaid i chi yn gyntaf gofrestru cyfrif ar Borth y Llywodraeth ac ar Daliadau Gwledig Cymru Ar-lein (RPW Ar-lein). Ceir Canllawiau ar sut i gofrestru yn y nodiadau o’r enw ‘RPW Ar-lein: Sut i Gofrestru’ (https://www.llyw.cymru/rpw-ar-lein-sut-i-gofrestru). Ceir Canllawiau ar sut i agor eich cyfrif RPW ar-lein yn y nodiadau o’r enw ‘RPW Ar-lein: Dechrau arni’ (https://www.llyw.cymru/rpw-ar-lein-dechrau-arni).

**Noder:** Dilynwch y cyfarwyddiadau uchod yn ofalus. Pan fyddwch yn creu eich cyfrif RPW Ar-lein, rhaid ichi ddewis ‘Cwsmer’ ar gyfer eich math o gyfrif, ac wedyn dewis, rwy’n bwriadu ymgeisio am grantiau neu wneud hawliadau’ neu ‘ rwy’n bwriadu ymgeisio neu hawlio a rheoli fy CPH. Wedyn gofynnir ichi cwblhau rhagor o fanylion. Bydd methu â dewis un o’r opsiynau hyn yn eich atal rhag hawlio os yw eich cais SCS yn llwyddiannus.


Ni fydd yn bosibl dilyn y camau yn y canllawiau hyn cyn ichi greu cyfrif Porth y Llywodraeth a chyfrif RPW Ar-lein.

## RPW Ar-lein: Mewngofnodi




Os ydych chi'n cael problemau neu os ydych chi'n methu agor eich cyfrif ar-lein, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Ar ôl i chi fewngofnodi yn eich cyfrif ar-lein, bydd ‘Tudalen Hafan’ RPW Ar-lein yn ymddangos.



RPW Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales

CRONFA AMAETHYDDOL EWROP AR GYFER DATBLYGU GWLEDIG: EWROP YN BUDDSODDI MEWN ARDALOEDD GWLEDIG
THE EUROPEAN AGRICULTURAL FUND FOR RURAL DEVELOPMENT: EUROPE INVESTING IN RURAL AREAS

CRN:

English Allgofnodi

Hafan | Fy Manylion | Tir | Gohebiaeth 193 | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach

**Ar ol i chi orffen eich sesiwn ar-lein, sicrhewch eich bod wedi allgofnodi a chau'r porwr.**

**Wrth lenwi ceisiadau, gofalwch beidio a phwyso botwm yn ol eich porwr.**

## Negeseuon Rhyngoch chi ag RPW

Heb ei ddarllen **Datganiad Talu / Payment Statement**
Datganiad Talu : E_Glastir Advanced CW

Heb ei ddarllen **Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru / Documents received by RPW**
Crynodeb Ffurflen Hawlio Grant : Grant Claim Form

**Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru / Documents received by RPW**
Grantiau Bach - Crynodeb o'r Datganiad o Ddiddordeb - Dechrau Busnes Garddwriaeth : Small Grants - Horticulture Start Up Expression of Interest

Heb ei ddarllen **Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru / Documents received by RPW**
Crynodeb o Gais ar gyfer y Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd : Food Business Accelerator Scheme Application

Gweld yr holl negeseuon

### Dechrau ffurflen

Ffurflen Cais Sengl 2023 Ar gael hyd at

Ail-werthusiad Newid Prosiect

Amrywiad i Gontract FCERM Ar gael unrhyw bryd

Apêl Ar gael unrhyw bryd

Cais Gwerth Ychwanegol (Pysgodfeydd) Ar gael hyd at

Cais ar gyfer y Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd

Cais i Newid Prosiect Ar gael unrhyw bryd

Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig - Cais am Grant Datblygu Ar gael hyd at diwrnod ar ôl.

Rydych wedi dechrau'ch SAF 2023 ond heb ei chyflwyno eto. Diweddarwyd ddiwethaf ar 17/02/2023 am 04:44 gan Charlies Estate Agent

**Nodyn Atgoffa SAF: Y dyddiad cau ar gyfer anfon eich SAF heb gael cosb am ei hanfon yn hwyr yw 15 Mai 2023. Felly dim ond 48 diwrnod sydd gennych ar ôl i gyflwyno'ch SAF.**


Parhau â SAF 2023

### Dolenni defnyddiol

BCMS
Ffermio a gwybodaeth cynllun
TB mewn gwartheg
Symud ac adnabod anifeiliaid fferm
Cyswllt Ffermio
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop
EID Cymru

## RPW Ar-lein: Hafan

I agor y cais ar gyfer Gwerth Ychwanegol (Pysgodfeydd), cliciwch ar y tab o'r enw 'Ffurflenni' ar sgrin hafan RPW Ar-lein, fel y gwelir isod.





Bydd hyn yn mynd â chi drwodd i'r dudalen 'Ffurflenni'.

I newid yr iaith unrhyw bryd, cliciwch ar y botwm Cymraeg / English.


sydd ar y bar yn gongl uchaf ar y dde yng ngwybodaeth RPW Ar-lein. Byddwch chi'n gallu dewis yr iaith y mae eich cais yn ymddangos ynddi.

### Tudalen Ffurflenni

Ar ôl i chi ddewis y tab 'Ffurflenni', byddwch chi'n gweld y Ceisiadau a'r Hawliadau sydd ar gael i chi eu llenwi.



Mae'r Ffurflen hefyd ar gael yn yr adran 'Dechrau Ffurflen' ar waelod y sgrin 'Hafan', cliciwch enw y cynllun perthnasol y dymunwch wneud cais amdano.  Bydd y ffurflen gais Gwerth Ychwanegol (Pysgodfeydd) ar gael yma tan ddyddiad cau'r ffenest.





## Cais i’r SCS: Dechrau Cais

Darllenwch Nodiadau Cyfarwyddyd y SCS cyn dechrau ar gais.


[https://www.llyw.cymru/cymorth-ar-gyfer-gwerth-ychwanegol-ansawdd-cynnyrch-defnydd-o-ddaliadau-diangen-canllawiau](https://www.llyw.cymru/cymorth-ar-gyfer-gwerth-ychwanegol-ansawdd-cynnyrch-defnydd-o-ddaliadau-diangen-canllawiau)

Dechreuwch ar eich cais drwy glicio ar y botwm 'Dechrau’.





## PARHAU I WNEUD CAIS/DECHRAU ETO

Ar ôl i chi ddechrau eich cais, mae gennych yr opsiwn i'w adael a dychwelyd ato eto. Os ydych chi'n cyrchu cais rydych chi wedi dechrau arno'n barod, yna byddwch yn gallu Parhau (botwm glas ar waelod y sgrin), neu Dechrau Eto drwy glicio ar y ddolen a ddangosir ar y sgrin hon:




Byddwch yn ymwybodol - os ydych chi'n dewis Dechrau Eto, bydd hyn yn dad-osod yr holl gwestiynau rydych chi wedi'u hateb a dileu'r holl wybodaeth rydych chi wedi'i hychwanegu.

Os ydych yn siŵr eich bod yn dymuno Dechrau Eto, cliciwch Ydw neu os nad ydych cliciwch Na, fel y dangosir ar y sgrin hon:





## Cyflwyniad

Dyma dudalen y Cyflwyniad, sy'n rhoi gwybodaeth allweddol am y cynllun rydych chi’n gwneud cais amdano.

Mae dolen i'r canllaw Sut i Gwblhau hwn ar frig y sgrin hon ar y chwith, a fydd yn eich cyfeirio at y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ar y chwith mae'r gwahanol adrannau yn cael eu harddangos. Mae croes goch yn dangos eich bod naill ai heb gyrchu pob adran eto, neu fod gennych wallau ar yr adran(au). Bydd tic gwyrdd yn arddangos unwaith y byddwch wedi cwblhau pob adran ac nad oes unrhyw wallau i’w gweld. Ceir amryw o fotymau llywio ar frig a gwaelod y ffurflen. Hefyd os ydych am newid rhwng y Gymraeg a'r Saesneg mae botwm i wneud hynny ar waelod chwith y sgrin fel y dangosir yn y sgrin isod:





Cliciwch ar y botwm 'Nesaf' ar ôl i chi ddarllen yr wybodaeth.



## Hysbysiad Preifatrwydd

Dyma’r dudalen Hysbysiad Preifatrwydd, sy'n rhoi gwybodaeth am y modd y bydd Llywodraeth Cymru yn rheoli eich data.





Cliciwch ar y botwm ‘Nesaf’ ar ôl i chi ddarllen yr wybodaeth.



## Cwestiynau am Gymhwysedd

Dyma’r dudalen Cymhwysedd, sy'n cynnwys cwestiynau sy’n penderfynu a ydych chi'n gymwys ar gyfer y cynllun. Rhaid i chi ateb pob cwestiwn ar y dudalen hon.




Mae rhai gwiriadau sylfaenol ar gywirdeb data yn y dudalen hon, a bydd unrhyw negeseuon am wallau neu wybodaeth yn ymddangos ar ôl i chi glicio ar ‘Safio’ neu ‘Nesaf’.




Os ydych chi'n gallu gweld neges gwall pan mae’r manylion yn gywir, cliciwch ar y botwm ‘Safio’ i ddiweddaru'r ffurflen a datrys unrhyw hen negeseuon gwall. Wrth

fynd drwy'r ffurflen, mae'n syniad da i glicio ar y botwm 'Safio' ar ôl i chi lenwi'r holl gwestiynau ar y sgrin.

## Manylion Cwch neu Long

Rhaid i chi roi manylion o leiaf un cwch neu long sy'n gymwys ar gyfer y cynllun. Cliciwch ar y botwm 'Ychwanegu Cwch'.





Drwy glicio ar 'Ychwanegu Cwch', byddwch chi'n mynd i'r sgrin 'Manylion y Cwch neu Long' lle gallwch chi roi gwybodaeth am y cychod neu'r llongau rydych chi'n berchennog neu'n rhan-berchennog arnynt. Rhaid i chi ateb pob cwestiwn ar y dudalen hon.




Ar ôl i chi ateb pob un o'r cwestiynau, cliciwch ar y botwm 'Safio' ac yna ar y botwm 'Cadw a Dychwelyd'.

## Cymhwysedd: Wedi'i gwblhau

Bydd y sgrin Cymhwysedd yn dangos manylion y cwch neu'r llong rydych chi wedi eu rhoi i mewn.




Gellir addasu neu ddileu manylion cwch neu long drwy ddefnyddio’r botymau hyn. Ar ôl i chi wirio bod y manylion yn gywir, cliciwch ar y botwm ‘Nesaf’.


## Dewis Eitemau

Cyn dewis eich eitemau, cofiwch ddarllen y Rhestr o Eitemau Cymwys, sydd yn y canllaw o’r enw Cymorth ar gyfer gwerth ychwanegol, ansawdd cynnyrch a defnydd o dddalfeydd diangen: rhestr o eitemau cymwys ar gyfer cyllid.  Byddwch chi'n cael manylion, cost a sgôr pob eitem.

[https://www.llyw.cymru/cymorth-ar-gyfer-gwerth-ychwanegol-ansawdd-cynnyrch-defnydd-o-ddaliadau-diangen-rhestr-o-eitemau](https://www.llyw.cymru/cymorth-ar-gyfer-gwerth-ychwanegol-ansawdd-cynnyrch-defnydd-o-ddaliadau-diangen-rhestr-o-eitemau)

Cliciwch ar y botwm ‘Ychwanegu Eitem’ i weld dewislen o’r holl eitemau sydd ar gael.








Gallwch chi chwilio’r opsiynau sydd ar gael drwy sgrolio neu deipio eu henwau yn y bar chwilio ar frig y rhestr. Mae modd cael y Rhestr o Eitemau Cymwys yn y Cymorth aar gyfer gwerth ychwanegol, ansawdd cynnyrch a’r defnydd o ddalfeydd diangen: rhestr o eitemau cymwys am gyllid.

## Eitemau a Ddewiswyd

Drwy glicio ar eitem, byddwch chi'n mynd i'r sgrin ‘Eitemau a Ddewiswyd’ lle gallwch chi ddarllen y disgrifiad o'r eitem a chanfod y swm o arian grant y byddwch yn ei gael am bob eitem os yw eich cais yn llwyddiannus.




Pan fydd y manylion ar y dudalen hon yn gywir, cliciwch ar y botwm ‘Safio’, yna’r botwm ‘Cadw a Dychwelyd’ i ddychwelyd at y sgrin ‘Dewis Eitemau’.




Nawr, gallwch chi barhau i ychwanegu eitemau at eich cais. Gwnewch yn siŵr fod ‘Uchafswm Gwerth y Grant’ yn disgyn rhwng yr isafswm a’r uchafswm a ddisgrifir ar y sgrin.

Os yw nifer yr eitemau buddsoddi yn fwy na'r gwerth Grant Uchaf, sef £30,000, rhaid i chi gael gwared ar eitem.





Ar ôl i chi ddewis eich holl eitemau, cliciwch ar y botwm ‘Nesaf’.



## Manylion Eraill

Dyma dudalen y ‘Manylion Eraill’, sy’n gofyn rhagor o gwestiynau ichi am eich buddsoddiad.  Rhaid ateb pob cwestiwn ar y dudalen hon.



## Manylion Eraill: Dangosyddion Canlyniadau

Mae'r adran 'Dangosyddion Canlyniadau' yn cynnwys cwestiynau am y newid y disgwylir i'ch buddsoddiad ei wneud i'ch busnes.

**Dangosyddion Canlyniadau**

Ar gyfer pob un o'r cwestiynau isod atebwch yn gadarnhaol os ydych yn disgwyl i'r buddsoddiad arwain at newid er gwell.

Gallai methu ateb yn gadarnhaol i o leiaf un cwestiwn nodi manteision arwain at eich cais yn cael ei wrthod.

Dylid nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu â chi ar ôl i'r buddsoddiad gael ei wneud i weld y canlyniadau a gyflawnwyd mewn gwirionedd.

| | |
|---|---|
| [1.3] A fydd y buddsoddiad yn newid yr elw blynyddol?* | ○ Bydd ○ Na fydd |
| [1.5] A fydd y buddsoddiad yn newid y tanwydd a ddefnyddir a/neu y ddalfa sy'n cael ei glanio?* | ○ Bydd ○ Na fydd |
| [1.8] A fydd y buddsoddiad yn newid y lefel o gyflogaeth (swyddi cyfwerth ag amser llawn) sy'n cael ei chynnal yn y sector pysgodfeydd neu weithgareddau ategol?* | ○ Bydd ○ Na fydd |
| [1.9a] A fydd y buddsoddiad yn newid nifer yr anafiadau neu ddamweiniau sy'n gysylltiedig â gwaith?* | ○ Bydd ○ Na fydd |

Trwy glicio ar yr opsiwn 'bydd' wrth unrhyw un o'r cwestiynau bydd rhagor o gwestiynau'n ymddangos isod a rhaid eu hateb.

**Dangosyddion Canlyniadau**

Ar gyfer pob un o'r cwestiynau isod atebwch yn gadarnhaol os ydych yn disgwyl i'r buddsoddiad arwain at newid er gwell.


Gallai methu ateb yn gadarnhaol i o leiaf un cwestiwn nodi manteision arwain at eich cais yn cael ei wrthod.

Dylid nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu â chi ar ôl i'r buddsoddiad gael ei wneud i weld y canlyniadau a gyflawnwyd mewn gwirionedd.

| | |
|---|---|
| [1.3] A fydd y buddsoddiad yn newid yr elw blynyddol?* | ◉ Bydd ○ Na fydd |
| Elw blynyddol cyn y buddsoddiad (£)* | |
| Elw blynyddol net a ragwelir ar ôl y buddsoddiad (£)* | |
| Y newid a ragwelir yn yr elw net blynyddol (£) | |
| [1.5] A fydd y buddsoddiad yn newid y tanwydd a ddefnyddir a/neu y ddalfa sy'n cael ei glanio?* | ◉ Bydd ○ Na fydd |
| Y tanwydd a oedd yn cael ei ddefnyddio bob blwyddyn cyn y buddsoddiad (litrau)* | |
| Y ddalfa a oedd yn cael ei glanio bob blwyddyn cyn y buddsoddiad (tunelli)* | |
| Y tanwydd a oedd yn cael ei ddefnyddio bob blwyddyn cyn y buddsoddiad (litrau fesul tunnell) | |
| Y tanwydd y disgwylir ei ddefnyddio bob blwyddyn ar ôl y buddsoddiad (litrau)* | |
| Y ddalfa flynyddol y disgwylir ei glanio ar ôl y buddsoddiad (tunelli)* | |
| Y tanwydd y disgwylir ei ddefnyddio bob blwyddyn ar ôl y buddsoddiad (litrau fesul tunnell) | |
| Y gostyngiad a ragwelir yn y defnydd o danwydd blynyddol (litrau fesul tunnell) | |
| [1.8] A fydd y buddsoddiad yn newid y lefel o gyflogaeth (swyddi cyfwerth ag amser llawn) sy'n cael ei chynnal yn y sector pysgodfeydd neu weithgareddau ategol?* | ◉ Bydd ○ Na fydd |

| | |
|---|---|
| Nifer y swyddi yr ystyrir sydd mewn perygl cyn y buddsoddiad (swyddi cyfwerth ag amser llawn i 1 lle degol)* | |
| Nifer y swyddi a ragwelir sydd mewn perygl ar ôl y buddsoddiad (swyddi cyfwerth ag amser llawn i 1 lle degol)* | |
| Rhagweld gostyngiad yn nifer y swyddi sy'n cael eu hystyried mewn perygl (swyddi cyfwerth ag amser llawn i 1 lle degol) | |
| [1.9a] A fydd y buddsoddiad yn newid nifer yr anafiadau neu ddamweiniau sy'n gysylltiedig â gwaith?* | ◉ Bydd ○ Na fydd |
| Nifer yr anafiadau neu ddamweiniau bob blwyddyn cyn y buddsoddiad* | |
| Nifer yr anafiadau neu ddamweiniau a ragwelir ar ôl y buddsoddiad* | |
| Y gostyngiad a ragwelir o ran nifer y damweiniau neu anafiadau blynyddol sy'n gysylltiedig â gwaith | |

O beidio â rhoi 'bydd' yn ateb i unrhyw rai o'r cwestiynau hyn, byddai hynny'n awgrymu na ddaw'r buddsoddiad ag unrhyw unrhyw fantais i'ch busnes. Rhaid ichi ateb 'bydd' ar gyfer o leiaf un o'r cwestiynau neu ni fyddwch yn gallu mynd ymlaen â'ch cais.


Dangosyddion Canlyniadau

Ar gyfer pob un o'r cwestiynau isod atebwch yn gadarnhaol os ydych yn disgwyl i'r buddsoddiad arwain at newid er gwell.

Gallai methu ateb yn gadarnhaol i o leiaf un cwestiwn nodi manteision arwain at eich cais yn cael ei wrthod.

Dylid nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu â chi ar ôl i'r buddsoddiad gael ei wneud i weld y canlyniadau a gyflawnwyd mewn gwirionedd.


[1.3] A fydd y buddsoddiad yn newid yr elw blynyddol?* — Bydd / Na fydd

[1.5] A fydd y buddsoddiad yn newid y tanwydd a ddefnyddir a/neu y ddalfa sy'n cael ei glanio?* — Bydd / Na fydd

[1.8] A fydd y buddsoddiad yn newid y lefel o gyflogaeth (swyddi cyfwerth ag amser llawn) sy'n cael ei chynnal yn y sector pysgodfeydd neu weithgareddau ategol?* — Bydd / Na fydd

[1.9a] A fydd y buddsoddiad yn newid nifer yr anafiadau neu ddamweiniau sy'n gysylltiedig â gwaith?* — Bydd / Na fydd

- Nid ydych wedi datgan newid manteisiol ar gyfer y buddsoddiad hwn. Rhaid i chi ddatgan hynny ar gyfer o leiaf un o'r cwestiynau uchod.


Result Indicators

For each of the questions below, enter Yes if you expect the investment to result in a beneficial change.

Failure to enter Yes against at least one Result Indicator may result in your application being rejected.

It should be noted that Welsh Government will be contacting you after the investment has been made to determine the results actually achieved.

| | |
|---|---|
| [1.3] Will the investment change the annual net profit?* | Yes / No |
| [1.5] Will the investment change the fuel consumption and/or catch landed?* | Yes / No |
| [1.8] Will the investment change the level of Employment (FTE) maintained in the fisheries sector or complementary activities?* | Yes / No |
| Number of jobs considered to be at risk before the investment (FTE jobs to 1 decimal place)* | 20 |
| Forecast number of jobs considered to be at risk after the investment (FTE jobs to 1 decimal place)* | 0 |
| Forecast reduction in number of jobs considered to be at risk (FTE jobs to 1 decimal place) | 20.0 |
| [1.9a] Will the investment change the number of work related injuries or accidents?* | Yes / No |
| Annual number of injuries or accidents before the investment* | 5 |
| Forecast annual number of injuries or accidents after the investment* | 0 |
| Forecast reduction in number of annual work related accidents or injuries | 5 |


Mae'r ffigurau hyn yn cael eu cyfrifo'n awtomatig am y gwahaniaeth cyn ac ar ôl y buddsoddiad yn seiliedig ar yr wybodaeth a gofnodwyd.

Ar ôl ateb yr holl gwestiynau ar y dudalen hon, cliciwch ar y botem 'Nesaf'.




## Tudalen Gyflwyno: Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Mae'r sgrin hon yn rhoi crynodeb o'r eitemau a ddewiswyd gennych a'r manylion a gyflwynwyd.





Mae hefyd yn tynnu sylw at gamgymeriadau sydd yn y ffurflen.





Rhaid i chi gywiro pob camgymeriad cyn cyflwyno eich cais. Ar ôl i chi wirio'r crynodeb a chywiro unrhyw gamgymeriadau, cliciwch ar y botwm 'Nesaf'.

## Cyflwyno: Datganiadau ac Ymrwymiadau

Mae’r dudalen hon yn cynnwys gwybodaeth y mae’n rhaid i chi ei darllen, a chyfrifoldebau ac ymrwymiadau y mae’n rhaid i chi eu derbyn cyn cyflwyno eich cais.





Rhaid i chi ddarllen y Datganiadau ac Ymrwymiadau a thicio’r blwch i gadarnhau eich bod chi wedi eu darllen a’ch bod yn cytuno â nhw.




Cliciwch ar y botwm ‘Nesaf’ ar ôl i chi wneud hynny.

## Tudalen Gyflwyno: Cyflwyno

I gyflwyno eich cais i’r SCS, cliciwch ar y botwm ‘Cyflwyno’.



## Cyflwyno'r Dogfennau


Ar ôl i chi eu cyflwyno, byddwch yn derbyn cadarnhad, a gallwch argraffu hwnnw ar gyfer eich cofnodion eich hun.





Cliciwch ar y botwm 'Cyflwyno Dogfennau' i uwchlwytho'r dogfennau angenrheidiol i gefnogi eich cais.

## Cyflwyno Dogfennau: Negeseuon

Byddwch yn cael eich cyfeirio at y sgrin 'Negeseuon' ar RPW Ar-lein.




Cliciwch ar y botwm 'Creu Neges'.





Cliciwch ar y botwm 'Ychwanegu Ffeiliau', ac atodwch yr holl ddogfennau ategol angenrheidiol.

Mae rhestr o'r dogfennau sydd eu hangen, a'r mathau o ddogfennau sy'n dderbyniol, ar gael yn nodiadau cyfarwyddyd y cynllun:

[https://www.llyw.cymru/cymorth-ar-gyfer-gwerth-ychwanegol-ansawdd-cynnyrch-defnydd-o-ddaliadau-diangen-canllawiau](https://www.llyw.cymru/cymorth-ar-gyfer-gwerth-ychwanegol-ansawdd-cynnyrch-defnydd-o-ddaliadau-diangen-canllawiau)

Gwnewch yn siŵr fod eich dogfennau wedi cael eu huwchlwytho'n gywir, a rhowch deitl arnynt a neges yn esbonio'n glir pa ddogfennau rydych chi wedi'u huwchlwytho.




Cliciwch ar y botwm 'Anfon'.

Pan fydd yr holl ddogfennau ategol wedi cael eu huwchlwytho, bydd eich cais yn gyflawn.

## Ar ôl cyflwyno cais yn llwyddiannus

Bydd crynodeb o’ch cais i'r Cynllun Costau Safonol yn cael ei ychwanegu at y dudalen ‘Negeseuon’ ar eich cyfrif RPW Ar-lein dan y teitl ‘Dogfennau a ddaeth i law i RPW’. Cofiwch wirio’r wybodaeth yn drylwyr. Os oes unrhyw wybodaeth yn anghywir, atebwch y Neges yn nodi eich pryderon. Dylech chi wneud hyn cyn gynted ag y byddwch yn darganfod unrhyw wybodaeth anghywir.

Os ydych chi'n cael problemau neu os ydych chi'n methu agor ein gwefan, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

**Mae tri chanlyniad posibl o werthuso ceisiadau:**

1. Nid yw eich prosiect yn gymwys ac nid yw wedi'i gymeradwyo ar gyfer cyllid. Byddwch yn cael gwybod am y rhesymau pam na fu eich cais yn llwyddiannus trwy eich cyfrif RPW Ar-lein.

2. Mae'r prosiect yn gymwys ond nid yw'n cael ei ddewis yn seiliedig ar sgorio.

3. Mae eich prosiect yn gymwys ac wedi'i gymeradwyo ar gyfer cyllid. Bydd contract yn cael ei roi i chi yn nodi telerau ac amodau'r wobr trwy eich cyfrif RPW Ar-lein y gofynnir i chi ei dderbyn o fewn 30 diwrnod fel cytundeb eich bod yn derbyn y telerau a’r amodau. Bydd y contract hefyd yn rhoi'r awdurdod i chi brynu'r eitemau. Bydd angen i chi dderbyn neu wrthod y cynnig o gontract o fewn 30 diwrnod. Bydd methu â derbyn y contract o fewn 30 diwrnod yn arwain at dynnu'r contract yn ôl.